



Site Stakeholder Group

Grŵp Rhanddeiliaid Safle

**Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a gynhaliwyd ar
Ddydd Iau 10 Medi yn Ystafelloedd Eleth/Eilian**

Yn bresennol:

Stuart Law	Rheolwr Safle Magnox Wylfa
Karin White	Ysgrifenyddiaeth Grwpiau Rhanddeiliaid Safle Magnox
Michelle Humphreys	Magnox Wylfa
Kelly Anderson	NDA
Sarah Johnston	NDA
Mr T Poole	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
M Ellsworth	HP&C Magnox
Y Cyng. J Griffith	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Talybolion
Y Cyng. K P Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Talybolion
Y Cyng. Aled M Jones	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Twrcelyn (Cadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Safle)
Y Cyng. W T Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Twrcelyn
Y Cyng. E Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Gwyn Hughes	Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio Rhag Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru
Y Cyng. Jac Jones	Cyngor Cymuned Mechell
Mr H Jordan	Ffederasiwn y Busnesau Bach
Sara Evans	(ar ran D Williams, Pennaeth Datblygu Economaidd, IOACC)
Paul Wright	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mr Thomas Conway	Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa
M E Dodds	Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa
Mr R Dobson	Aelod o'r Cyhoedd
Mel O Hara	Aelod o'r Cyhoedd

Ymddiheuriadau:

Nick Blackburn	Arolygydd ONR
Kelly Duane	Partneriaeth Cavendish Fluor
Mr Derek Gadson	FIACP
Y Cyng. Julia Dobson	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Peter Harrup	NDA
J Honey	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Rhun ap Iorwerth	Aelod Cynulliad dros Ynys Môn
Annette Jones	Sefydliad y Merched
Cai Jones	Yn cynrychioli AC Ynys Môn
Y Cyng. Richard O Jones	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Twrcelyn
Mrs Jean Jones	Ysgol Syr Thomas Jones
Lowri Joyce	Magnox
Dr J I Jones	Magnox
N Monckton	Magnox
Gwyn Roberts	Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru
Alwyn Rowlands	Cyngor Sir Ynys Môn
Carol Saretti	Ynys Ynni
Hugh Townsend	Cwnstablfaeth Niwclear Sifil, Safle Wylfa
D Williams	Pennaeth Datblygu Economaidd, Cyngor Sir Ynys Môn



Site Stakeholder Group

Grŵp Rhanddeiliaid Safle

1. Croeso a Derbyn Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod arbennig hwn lle byddai cyflwyniad yn cael ei roi gan Sarah Johnston (Pennaeth Datblygu Strategaeth) a Kelly Anderson (Rheolwr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid) o'r NDA. Dywedodd hefyd wrth y cyfarfod fod Lowri Joyce, y Swyddog Cyfathrebu ar gyfer Wylfa a Thrawsfynydd, heddiw wedi gadael Magnox i gychwyn swydd newydd fel Rheolwr Cysylltiadau Rhanddeiliaid gyda Hitachi GE ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd. Byddai Lowri wedi'i lleoli yn swyddfeydd Wylfa Newydd. Dymunodd y Cadeirydd y gorau iddi gan nodi y byddai'n ysgrifennu ati ar ran y grŵp i ddiolch iddi am ei gwaith ac i ddymuno'n dda iddi.

2. Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod ar 21 Mai 2015
Cymeradwywyd y cofnodion fel rhai gwir a chywir gan y Cyng. K P Hughes ac eiliwyd hynny gan y Cyng. William T Hughes.

3. Materion yn codi o'r Cofnodion blaenorol
Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r cyfarfod blaenorol.

4. Strategaeth 3 yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear -
Trosolwg ar y strategaeth ddrafft ac esboniad ar y broses ymgynghori
(Sara Johnston/Kelly Anderson)
Cyflwynodd y Cadeirydd Sarah (Pennaeth Datblygu Strategaeth) a fyddai'n rhoi'r cyflwyniad. Dywedodd mai'r bwriad oedd bod y ddogfen hon yn mynd allan i ymgynghori arni ym mis Medi ond bod hyn yn awr wedi'i ohirio tan ddechrau'r flwyddyn nesaf. Nodwyd y byddai'r ymgynghoriad yn dechrau ar 16 Ionawr 2016 am chwe wythnos, ond bod y NDA eisiau rhannu ei feddyliau cyn i'r broses ymgynghori ffurfiol ddechrau.

Dywedodd Sarah Johnston (SJ) fod y strategaeth ddrafft wedi'i chyhoeddi ar y wefan ar ddydd Mawrth 8 Medi ac mai ei bwriad hi oedd rhoi trosolwg arni. Eglurodd fod angen i'r NDA, o dan Ddeddf Ynni 2004, adolygu, diweddarau ac ymgynghori ar eu Strategaeth bob pum mlynedd a'i fod yn gyfle i bwysu a mesur eu sefyllfa.

Aeth SJ ymlaen i ddweud eu bod yn ailwampio eu cynllun ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid a'u bod wedi cyhoeddi'r strategaeth ddrafft fel rhan o'r broses ymgysylltu. Roedd y Digwyddiad Rhanddeiliaid Cenedlaethol wedi'i ohirio tan y cyfnod ymgynghori terfynol. Byddai cyfnod o ymgysylltu â rhanddeiliaid gyda chyfnod ymgynghori byrrach i ddilyn ac atgoffodd SJ y grŵp eu bod yn croesawu sylwadau ac adborth.

Holodd Thomas Conway (TC) a oedd y strategaeth yn cael ei newid oherwydd Adolygiad o Wariant y Llywodraeth, a faint o doriadau oedd yn rhaid i'r NDA eu gwneud.

Atebodd SJ nad oedd Adolygiad o Wariant y Llywodraeth yn ddylanwad mor fawr â hynny ond y byddai'n effeithio fwy ar beth wnâi'r NDA yn y tymor byr yn hytrach na'r tymor hir.

Holodd TC a fyddai'n bosibl cael copi caled o'r ddogfen. Dywedodd Karin White (KW) wrth y grŵp fod doler er mwyn gallu cysylltu i'r ddogfen ar y wefan ac y byddai'n anfon copi caled at TC.

Aeth SJ drwy'r pedair thema allweddol:



- **Datgomisiynu ac Adfer Safleoedd:** Datgomisiynu ac adfer ein safleoedd dynodedig a'u rhyddhau ar gyfer defnyddiau eraill
- **Gweddillion Tanwydd:** Sicrhau rheolaeth ddiogel, ddi-risg a chost-ffeithiol o gylch bywyd y gweddillion tanwydd
Dros y pum mlynedd nesaf disgwylir i'r gweithfeydd ailbrosesu THORP a Magnox fod wedi cwblhau'r gwaith ailbrosesu. Bydd cwblhau'r rhaglenni ailbrosesu'n garreg filltir anferth i'n cenhadaeth hirdymor.
- **Deunyddiau Niwclear:** Sicrhau rheolaeth ddiogel, ddi-risg a chost-ffeithiol o gylch bywyd ein deunyddiau niwclear
Sicrhau rheolaeth ddiogel a di-risg o stociau plwtoniwm a wahanwyd a gedwir gan y NDA a chefnogi'r llywodraeth i ddatblygu'r dull a ffafrir ganddi o roi plwtoniwm a wahanwyd yn y DU allan o gyrraedd.
- **Rheolaeth Integredig o Wastraff:** Sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli mewn ffordd sy'n diogelu pobl a'r amgylchedd, heddiw ac yn y dyfodol, ac mewn ffyrdd sy'n cydymffurfio â pholisiau'r llywodraeth ac sy'n rhoi gwerth am arian.
Mae rheoli gwastraff yn effeithiol yn un o'r gofynion hanfodol ar gyfer darparu ein cenhadaeth ac yn rhan bwysig iawn o'n rhaglen.

Cwestiynau

Holodd y Cyng. Jac Jones (JJ) am fformat y sylwadau ac a fyddai angen ymateb unigol ar y NDA neu ymateb gan y grŵp rhanddeiliaid safle'n gyffredinol.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Grŵp yn gofyn am gyngor ar hynny ac yn cael arweiniad ar ôl y cyflwyniad. Roedd wedi cael ar ddeall bod y Cyngor Sir am ymateb drosto'i hun.

Holodd Mike Dodds (MD) beth fyddai'r drafferth gyda phrosesu tanwydd Magnox pan fydd THORP yn cau.

Dywedodd SJ y byddai THORP yn cau yn 2018 ac eglurodd fod gwahanol fathau o danwydd. Byddai'r rhan fwyaf o'r tanwydd ocsid o dramor wedi'i brosesu erbyn hynny gobeithio. Ar ôl hynny, y bwriad oedd storio yn hytrach na phrosesu'r AGR a'r gweddillion tanwydd ocsid eraill a'u dosbarthu fel gwastraff gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Teimlai TC fod hyn yn mynd yn groes i'r hyn a addawyd ac yn enghraifft o'r llywodraeth yn gwrthod anrhydeddu ei hymrwymadau.

Aeth SJ ymlaen i drafod y galluogwyr allweddol:

- **Galluogydd Allweddol – Iechyd, Diogelwch, Gwarchodaeth, Rhagofalon, Amgylchedd ac Ansawdd (HSSSEQ):** I leihau'r peryglon a'r risgiau sydd ynghlwm wrth yr etifeddiaeth niwclear, drwy fynd ati'n gymesur i gymhwysu safonau cyfoes a gwella perfformiad amgylcheddol ac iechyd a diogelwch ar draws ystâd y NDA.
Mae ansawdd yn ofyniad cytundebol. Dyma un o brif flaenoriaethau'r NDA.
- **Galluogydd Allweddol – Ymchwil a Datblygu:** Sicrhau bod y gwaith o ddarparu cenhadaeth y NDA wedi'i ategu'n dechnegol gan Ymchwil a Datblygu digonol a phriodol.
Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda sefydliadau eraill a rhannu gyda / elwa o eraill.



- **Galluogydd Allweddol – Pobl:** Sicrhau bod y NDA, ei is-gwmnïau a'r ystâd yn gallu denu a chadw'r sgiliau, yr amrywiaeth o dalent a'r gallu angenrheidiol i ddarparu cenhadaeth y NDA yn effeithlon ac effeithiol drwy arwain y Strategaeth Pobl ar draws yr ystâd.
Gan edrych ymlaen at y dydd pan ddaw'r safleoedd i ben, a fydd gan bobl y sgiliau i fynd i rywle arall?
- **Galluogydd Allweddol – Rheoli Asedau:** Sicrhau perfformiad dibynadwy sy'n rhoi gwerth am arian drwy wneud y defnydd gorau o asedau'r DU er mwyn gallu darparu cyflwr terfynol y safle
Sut ydym yn gweithio â'r safleoedd sy'n parhau i wneud defnydd o asedau?
- **Galluogydd Allweddol – Contractio:** Sicrhau bod y NDA yn caffael y galluoedd gorau sydd gan y farchnad i'w gynnig, drwy gontractau sy'n rhoi gwerth am arian, yn enwedig o ran trosglwyddo risg yn briodol. Byddwn yn rheoli'r contractau hyn yn effeithiol ac yn defnyddio cymhellion cytundebol, cadarnhaol a negyddol, i sicrhau'r canlyniadau gorau
- **Galluogydd Allweddol – Datblygu'r Gadwyn Gyflenwi:** Sicrhau y gwnawn y mwyaf o'r gadwyn gyflenwi sydd ar gael i ystâd y NDA er mwyn creu marchnad ddiogel, fforddiadwy, cost-effeithiol, arloesol a deinamig i gefnogi ein cenhadaeth ac fel bod ystâd y NDA yn cael ei gweld fel y dewis gleient niwclear
Mae'r llywodraeth yn dangos llawer iawn o ddiddordeb yn hyn, gan feddwl rhannu â busnesau eraill.
- **Galluogydd Allweddol – Llywodraethu a Rheoli Gwybodaeth:** Sicrhau'r gwerth gorau o asedau gwybodaeth y NDA mewn ffordd gydymffurfiol a diogel, drwy fuddsoddi ond yn yr hyn sydd angen ei gadw i ddarparu cenhadaeth y NDA
Mae llawer o wybodaeth wedi'i chasglu ac mae gwaith wedi dechrau ar archif y NDA. Mae'r wybodaeth yn cynnwys papur a samplau. Bydd wedi'i lleoli mewn canolfan ganolog yn Wick.
Holodd Mr R Dobson a oedd Wick yn lleoliad canolog mewn gwirionedd.

Dywedodd SJ y byddai rhai o'r eitemau mewn lleoliadau lloeren.

- **Galluogydd Allweddol – Economeg Gymdeithasol:** Cefnogi'r gwaith o gynnal economïau lleol cynaliadwy yn y cymunedau sy'n byw gerllaw ein safleoedd a, lle bo hynny'n bosibl, cyfrannu at amcanion twf economaidd rhanbarthol
Rhoddodd Kelly Anderson (KA) drosolwg ar faterion economaidd-gymdeithasol. Mae rhai ardaloedd yn rhai blaenoriaeth ac ni fyddent yn newid, fodd bynnag byddid yn ystyried cylchoedd bywyd (e.e. lle bydd gorsafoedd newydd neu B Orsafoedd) ac amserlenni. Gan ddibynnu ar gyllid, byddai pethau'n parhau a byddai Wylfa a Traws yn parhau i fod yn ardaloedd blaenoriaeth. Bydd y NDA yn ystyried cylch bywyd y safleoedd a'r orsaf newydd yn Wylfa.
- **Galluogydd Allweddol: Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Rhanddeiliaid:** Sicrhau bod y cyhoedd a rhanddeiliaid yn dod i ddeall ein cenhadaeth yn well a chynnal eu cefnogaeth, hyder a'u hymddiriedaeth
Dywedodd KA y byddent bob amser yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a bod angen iddynt edrych ar sut i wneud hynny gan ddibynnu ar yr amgylchedd, e.e. sut i gyfathrebu a diweddarau pobl yn gyson ar ôl symud i'r cam Gofal a Chynnal a Chadw. Roeddent yn gobeithio dysgu wrth fynd ymlaen ond wedi sylweddoli na fyddai delio gyda phawb yr un fath yn gweithio. Roedd hefyd angen iddynt adolygu pethau ar lefel genedlaethol, e.e. mae teithio i Dounreay i gael cyfarfod yn bell, a fyddai'n fuddiol cynnal pethau mewn manau gwahanol etc. Roedd eisiau adborth arnynt ar sut i



Site Stakeholder Group

Grŵp Rhanddeiliaid Safle

estyn allan at bobl ac ymgysylltu â'r Grwpiau SSG a sut i ymgysylltu â'r bobl nad oeddent ar y Grwpiau hyn, sut i gynnwys pobl yn y ffordd orau, a byddent yn croesawu adborth ar yr opsiynau

- **Galluogydd Allweddol – Cludiant a Logisteg:** Sicrhau bod deunyddiau'n cael eu cludo'n effeithiol er mwyn darparu cenhadaeth y NDA
Mae cludiant yn ymwneud â'r hyn sydd gennym yn awr a beth fydd ei angen arnom yn y dyfodol. Byddai teithio ar y rheilffyrdd yn well nag ar y ffyrdd. Bydd angen cysylltiadau trafndiaeth ar y cyfleusterau gwaredu daearegol, y cwestiwn efallai fydd sut i symud gwastraff yn y tymor hirach. O edrych ar becynnu plwtoniwm a'r materion sy'n codi, mae rheoleiddwyr cludiant bellach yn rhan o'r ONR.
- **Galluogydd Allweddol – Optimeiddio Refeniw:** Creu amgylchedd lle gellir sicrhau'r refeniw presennol a datblygu cyfleoedd yn erbyn meini prawf i'w cytuno gyda'r llywodraeth. Ar lefel llawer is, parhau i weld sut y gallwn gynhyrchu refeniw o'n cyflwr (mae angen syniadau da)
- **Galluogydd Allweddol - Cysylltiadau Rhyngwladol:** Sicrhau bod ystâd y NDA yn achub ar fanteision profiad rhyngwladol er mwyn ateb y gofyniad yn ei Deddf Ynni i fabwysiadu arferion da, sicrhau gwerth am arian a chefnogi polisi'r llywodraeth, drwy gydweithrediad targed â sefydliadau rhyngwladol.
- **Galluogydd Allweddol – Rheoli Tir ac Eiddo:** Rheoli ein tir a'n heiddo fel y cefnogir cenhadaeth y NDA ac fel y bydd ar gael ar gyfer defnyddiau eraill sy'n gwneud y mwyaf o'r manteision refeniw ac economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys tir ac eiddo y tu allan i'r safleoedd trwyddedig. Mae Berkeley Centre bellach yn Berkeley and Stroud College ac yn Whitehaven codwyd swyddfeydd y tu allan i'r ardal trwydded safle. Mae'r archif yn Caithness wedi cael y golau gwyrdd ac mae gan y Gwnstabiliaeth Niwclear Sifil ganolfan hyfforddi newydd.

Cwestiynau

Dywedodd JJ ei fod yn awyddus i wybod beth yn union oedd y rhagofalon o dan y pennawd Iechyd, Diogelwch, Gwarchodaeth, Rhagofalon ac Amgylchedd.

Esboniodd Stuart Law (SL) beth oedd ystyr rhagofalon fel term, a'i fod yn cynnwys gallu tracio deunyddiau a sicrhau na chaiff deunyddiau niwclear eu troi ymaith o'r defnyddiau y bwriadwyd hwynt ar eu cyfer a'u defnyddio'n amhriodol.

Dywedodd SJ fod ganddynt nifer o ddigwyddiadau a'u bod yn hapus i dderbyn sylwadau tan ddiwedd Tachwedd. Ni fyddai'r rhain yn rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol, oedd i ddechrau yn Ionawr 2016. Soniodd fod y ddogfen yn cynnwys cwestiynau ond roedd yn awyddus i wybod ai'r cwestiynau hyn oedd y rhai iawn i'w gofyn.

Mae'r grŵp rhanddeiliaid cenedlaethol ar gyfer cadeiryddion Grwpiau SSG wedi'i symud i Ionawr 2016 i gyd-fynd â'r ymgynghoriad.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r is-grŵp gwastraff yn gallu llunio ymateb fel rhan o'i gyfarfod nesaf. Diolchodd i SJ a KA.



Site Stakeholder Group

Grŵp Rhanddeiliaid Safle

5. Cynllun Datblygu Economaidd-Gymdeithasol Magnox

Dyweddodd Michelle wrth y grŵp eu bod yn gweithio ar gynllun economaidd-gymdeithasol newydd a fyddai'n cael ei gyhoeddi fel drafft ar y wefan ar 30 Medi. Byddai unrhyw sylwadau'n cael eu gwerthfawrogi. Dywedodd ei fod yn llawer mwy na'r cynllun economaidd-gymdeithasol presennol ac yn cynnwys pethau fel sut y gallai Magnox gefnogi'r gadwyn gyflenwi leol, parhau i gefnogi addysg a phynciau STEM a chefnogi'r gymuned mewn ffyrdd eraill. Roedd yn gynllun cyffrous gydag amcanion a thargedau newydd.

Dyweddodd wrth aelodau'r grŵp y byddent yn derbyn llythyr yn y post neu e-bost yn eu gwahodd i weld y wefan.

Dyweddodd y Cadeirydd y byddai'r fforwm yn gallu ymateb i hyn hefyd.

6. Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored

7. Unrhyw Fusnes Arall

Dyweddodd y Cadeirydd wrth y grŵp ei fod wedi mynychu dau gyfarfod argyfwng, un yng Ngorffennaf a'r llall yn Awst. Daeth yn amlwg fod Magnox ond yn bwriadu cyflogi un Swyddog Cymorth Cyfathrebu fel Ysgrifenyddiaeth ar gyfer pob un o'r Grwpiau Rhanddeiliaid Safle fel rhan o'r ad-drefnu sefydliadol. Roedd Magnox wedi cael gwybod am y pryder hwn ac roedd Cadeiryddion y Grwpiau SSG wedi bod yn ceisio eu dylanwadu.

O ran yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, byddwn yn gwybod beth fydd yr effaith ar y NDA ac ar adrannau eraill y llywodraeth ar 25 Tachwedd.

Soniodd y Cadeirydd hefyd am y Tour of Britain a'r PR da a gafodd yr ardal, ond roedd hefyd yn dymuno nodi bod Magnox wedi rhoi £60,000 ar gyfer digwyddiad beicio a barodd am bythefnos cyn y Tour of Britain, oedd hefyd wedi bod yn llwyddiant ysgubol.

Rhoddodd SL ddiweddariad byr fel Cyfarwyddwr Safle ond dywedodd y byddai hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod ffurfiol nesaf y SSG. Cafwyd nifer fach o ddigwyddiadau colli amser, lle oedd un unigolyn wedi troi ei gefn ac un arall wedi brifo ei benelin ar ôl cael codwm. Byddai nifer y gweithwyr ar y safle'n gostwng o 357 i 297 ar gyfer y cyfnod gwagu tanwydd, felly roedd llawer o bobl ar y safle oedd yn ansicr ynghylch eu dyfodol. Roedd yn bwysig iawn meddai cadw at yr amserlen. Roedd y paratodau'n heriol ond yn mynd rhagddynt yn dda.

Roedd gan eneradur disel 2 ddirgryniadau uchel ond roeddent yn byw gyda'r peth ar y funud hyd nes oedd gwaith pellach wedi'i wneud ar eneradur disel 1 a 3.

Atgoffodd SL y cyfarfod mai'r 30 Rhagfyr oedd y dyddiad y byddai cynhyrchu'n dod i ben. Roedd y safle'n cynhyrchu ychydig o dan ei bŵer llawn ar hyn o bryd. Roedd gostyngiad bach wedi bod, fel oedd i'w ddisgwyl, oherwydd roedd y tanwydd gorau wrth gwrs wedi'i ddefnyddio. Yn ôl y lefelau pŵer bydd Wylfa'n cyrraedd y diwedd wedi defnyddio pob dim. Roedd y paratoi am y diffodd 100 diwrnod olaf yn dod yn ei flaen yn dda.

Holodd TC am nifer y staff ac a oedd y gostyngiad i 297 yn ddiswyddiadau gorfodol neu wirfoddol.



Site Stakeholder Group

Grŵp Rhanddeiliaid Safle

Dywedodd SL na fyddai'n diystyru diswyddo'n orfodol a bod trafodaethau'n cael eu cynnal â Chydgyngor y Safle (SJC). Roedd ganddo joban o waith i'w gwneud ac roedd angen y tîm gorau posibl arno i gael y tanwydd oddi ar y safle. Nid oedd gan neb hawl i dâl diswyddo os oedd y cwmni'n dewis talu eu cyflog.

Dywedodd TC y byddai Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa'n hapus i groesawu aelodau newydd.

Daeth AMJ â'r cyfarfod i ben drwy ddweud bod Wylfa wedi bod yn gyflogwr da, yn gymydog da ac wedi rhoi gyrfaedd i lawer yn y diwydiant niwclear.

Daeth y cyfarfod i ben am 15.10.

8. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf
l'w gadarnhau.